# Adroddiad Grŵp Cyflawni BGC

Paratowyd gan: Teleri Elias

| | |
|---|---|
| **Nod Cynllun Llesiant** | Bydd pob Grŵp Cyflawni seiliedig ar le yn anelu at fynd i'r afael â'r nodau llesiant fel yr amlinellir yng Nghynllun Llesiant Lleol Ceredigion. Bydd fframwaith darparu seiliedig ar le yn blaenoriaethu integreiddio a chyfrannu ar gyfer cydnerthedd cymunedau ac unigolion. |
| **Ein Gwerthoedd** | Y Gymraeg, Taclo Anghydraddoldeb, Cymryd Rhan, Cynaliadwyedd, Arwain drwy Esiampl |
| **Enw'r Grŵp Prosiect** | Llesiant Llanbedr Pont Steffan |
| **Cadair**<br>**Is - Gadeirydd** | **Greg Jones**, Cyngor Sir Ceredigion<br>Gwilym Dyfri Jones, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant |

| **Aelodaeth y Grŵp Prosiect** *(Yr enwau mewn print **trwm** oedd yn bresennol yn y cyfarfod)* | | | |
|---|---|---|---|
| Cyngor Sir Ceredigion | **Timothy Bray, Sara Dafydd**, Carwyn Young, Rhidian Harries, **Robb Starr**, Cathryn Morgan, Connor Cook, Sarah Groves-Phillips, Gethin Jones, Llinos Hallgarth, Lowri Evans, Lynne Walters, Rachel Auckland, Alison Heal, **Cllr Ann Bowen Morgan,** Sian Salcombe, Sara Humphreys, **David Jones**, Bethan James, Anwen Thomas, **Teleri Elias**, **Eirlys Lloyd,** Rachel Cutler | Cyfoeth Naturiol Cymru | Aled Davies, Thomas Vetter |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | Jina Hawkes, Peter Skitt, **Terri-Ann Patrick,** Meinir Harries, Nathan | Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant | Emyr Jones, **Hazel Thomas, Laura Cait Driscoll** |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Davies, Dr Phil Kloer, Jan Batty, Angela Burns, **Trina Nealon** | | |
| Heddlu Dyfed-Powys | Yr Arolygydd Matthew Howells | Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru | **Wayne Thomas**, Iwan Cray |
| Barcud | Catrin Owen, Helen Draycott | CAVO | Hazel Lloyd-Lubran, **Teleri Davies** |
| Home-Start | **Sharon Morris** | Ysgol Bro Pedr | Deiniol Williams |
| Banc Bwyd Llambed | Julia Lim | Canolfan Teulu Llambed | Elin Miles, **Jen Leigh** |
| Arts4Wellbeing | **Mike Hotson**, Sara Wentworth | Tai Wales & West | Rhiannon Ling |
| Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru | Roxanne Treacy, **Vikki Butler** | Area 43 | **Becca Head** |

**CRYNODEB O GYFARFOD Y GRŴP PROSIECT**

**Pwyntiau Allweddol a drafodwyd yng nghyfarfod y Grŵp Prosiect: 29.01.24**

**9.1 Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau:**
Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod. Nodwyd bod y canlynol wedi ymddiheuro am na fedrent ddod i'r cyfarfod: *Elen James, Carwyn Young, Rachel Auckland, Connor Cook, Julia Lim, Gwilym Dyfri Jones, Peter Skitt.*

**9.2 Cofnodion a materion yn codi o'r cyfarfod blaenorol:**
Derbyniwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd 2023 yn gywir. Cytunwyd bod y camau a gofnodwyd wedi'u cwblhau neu wedi'u cynnwys ar agenda'r cyfarfod.

**9.3 Diweddariad ac Adborth o'r BGC: Cynllun Llesiant Lleol 2023-28 Fframwaith Llywodraethu a Chyflawni:**
Cadarnhaodd Tim Bray (TB) fod yr holl adborth ac ymatebion a roddwyd gan bartneriaid ym mhedwar sesiwn gweithdy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus bellach wedi'u hystyried, a bod blaenoriaethau allweddol wedi'u nodi ar gyfer bob Amcan. Dywedodd

TB fod Tîm Cefnogi BGC wedi cychwyn creu traciwr gweithredu ar gyfer y prif flaenoriaethau a nodwyd drwy'r gweithdai, ac y gellir rhannu hyn gyda'r Grŵp Cyflawni yn dilyn ei gyflwyniad yng nghyfarfod nesaf y BGC ym mis Mawrth. Gofynnodd Eirlys Lloyd (EL) am gyfarfod â TB gyda'r nod o sicrhau bod gwaith y Bartneriaeth Economaidd Leol yn cael ei gynnwys o fewn organogram y Strwythur Cyflawni.

Nodwyd, yn y cyfarfod BGC blaenorol ym mis Rhagfyr, y cytunodd yr aelodau i gadw strwythur cyflawni'r Grwpiau Cyflawni ar sail lle gan ganolbwyntio ar Llambed ac Aberteifi, gyda'r trefniant hwn i'w adolygu ar ôl 2 flynedd. Bydd y trydydd Grŵp Cyflawni yn seiliedig ar le yn Aberystwyth yn dod yn grŵp thematig o'r enw Grŵp Cyflawni Hinsawdd a Natur, er mwyn crynhoi natur eang y pynciau dan sylw yn well. Er y byddai'r Grŵp Cyflawni sy'n seiliedig ar leoedd a oedd yn canolbwyntio ar Aberteifi yn aros yn ei le, cadarnhaodd TB y byddai ei enw hefyd yn cael ei newid i'r Grŵp Cyflawni Llesiant yn Aberteifi, o gofio bod tlodi a chaledi bellach yn themâu trawsbynciol ar draws y Cynllun Llesiant cyfan. Yn ogystal â hyn, nododd TB fod aelodau BGC wedi cytuno i ymgorffori'r gwaith parhaus a arweiniwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (HDdUHB) ar y Siarter Teithio Iach i'r Grŵp Cyflawni Hinsawdd a Natur, gyda diweddariadau i'w hadrodd yn ôl i'r BGC gan Gadeirydd y grŵp, Gillian Perry (Meddyg Teulu). Adroddodd Vikki Butler (VB) y byddai cynrychiolydd o Rwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru (RhCC) yn mynychu pob cyfarfod Grŵp Cyflawni i hwyluso ymgysylltiad a chyfranogiad.

Yn dilyn adborth o'r gweithdai, trafododd aelodau'r BGC hefyd y posibilrwydd o neilltuo'r cyfarfod BGC chwarterol i amcan llesiant penodol, er mwyn caniatáu dadansoddi manwl i ddarnau penodol o waith. Dywedodd TB fod trafodaethau ynghylch y cysyniad hwn yn parhau, a bod angen gwneud rhagor o waith i sefydlu a chydlynu llinellau amser ar gyfer adrodd. O ran lansiad swyddogol y Cynllun Llesiant, nododd TB y cytunwyd i gynnull grŵp Gorchwyl a Gorffen i gefnogi'r broses hon a gwahodd aelodau'r Grŵp Cyflawni a oedd â diddordeb mewn bod yn rhan o'r grŵp hwn i gyflwyno eu henwau. Cadarnhaodd EL a Mike Hotson (MH) eu diddordeb mewn cymryd rhan.
**Gweithred: Tîm Cefnogi BGC i ddosbarthu'r cynllun Cyflawni'r Cynllun Llesiant i aelodau yn dilyn cyfarfod y BGC ym mis Mawrth.**
**Gweithred: Eirlys Lloyd a Tim Bray i gwrdd i sicrhau bod y Bartneriaeth Economaidd Leol yn cael ei chynrychioli yn y siart llif strwythur cyflawni.**
**Gweithred: Eirlys Lloyd a Mike Hotson i gael eu gwahodd i fynychu'r grŵp Gorchwyl a Gorffen ar gyfer y lansiad. Holl aelodau'r Grŵp Cyflawni i ystyried cynrychiolwyr addas eraill, a rhannu awgrymiadau gyda Sara Dafydd.**

**<u>9.4 Adolygiad: Cylch Gorchwyl Drafft ac Aelodaeth Grŵp Cyflawni Llesiant Llambed:</u>**

DRAFT

Nododd Sara Dafydd (SD) y byddai angen adolygu ac adnewyddu'r Cylch Gorchwyl (CG) ar gyfer pob un o'r Grwpiau Cyflawni a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus trosfwaol i gwblhau'r Cynllun Cyflawni. Rhannodd SD y CG ar gyfer is-grŵp BGC Tlodi fel enghraifft, a cynigiwyd y byddai'r CG ar gyfer y Grŵp Cyflawni Llesiant yn Llanbedr Pont Steffan yn adlewyrchu is-grŵp Tlodi er mwyn sicrhau cysondeb. Cytunwyd y byddai drafft cyntaf o'r CG yn cael ei ddrafftio a'i ddosbarthu i'r grŵp i'w ystyried a chyflwyno sylwadau maes o law. Cynhaliwyd adolygiad o aelodaeth y Grŵp Cyflawni cyn y cyfarfod, gydag e-bost yn cael ei ddosbarthu ychydig wythnosau ymlaen llaw cyn gofyn i'r aelodau gadarnhau a hoffent barhau yn aelod o'r grŵp. Anogodd SD yr aelodau nad oeddent eto wedi cadarnhau i wneud hynny, ac i ystyried awgrymu unrhyw gydweithwyr perthnasol a fyddai'n elwa o fod yn rhan o drafodaethau'r grŵp yn y dyfodol.
**Gweithred: Tîm Cefnogi BGC i ddrafftio a chylchredeg y Cylch Gorchwyl ar gyfer sylwadau.**
**Gweithred: Holl aelodau'r Grŵp Cyflawni i ystyried y CG drafft, ac ymateb gydag unrhyw adborth.**
**Gweithred: Holl aelodau'r Grŵp Cyflawni i gadarnhau a ydynt am barhau ar restr ddosbarthu, ac i awgrymu syniadau ar gyfer cynrychiolwyr ychwanegol a allai ychwanegu gwerth i'r grŵp.**

**<u>9.5 Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU: Prosiectau Llambed:</u>**
Rhoddodd EL y wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau a gynhaliwyd yn ardal Llanbedr Pont Steffan gan ddefnyddio cyllid cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (UK SPF). Mae Cyngor Tref Llanbedr Pont Steffan wedi derbyn cyllid o £35,000 fydd yn edrych ar wella canol y dref fel rhan o Gynllun Gwella Llanbedr Pont Steffan. Cadarnhaodd EL fod sawl busnes yn cael eu cefnogi fel rhan o brosiect Cynnal y Cardi, a'u bod ar hyn o bryd ar y cam cytundeb cyflawni. Mae Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO) yn cyflwyno prosiectau a ariennir gan CFfG y DU sy'n canolbwyntio ar wirfoddoli, yn benodol y prosiect Catalydd ar gyfer Gofal a fydd yn archwilio gwahanol lefelau gofal yng Ngheredigion ochr yn ochr â Chyngor Sir Ceredigion (CCC) a Planed. Nodwyd hefyd fod Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (PCYDDS) wedi sicrhau cyllid drwy Gronfa Her ARFOR sy'n ceisio archwilio atebion sy'n cryfhau'r berthynas rhwng y Gymraeg a'r economi, er mwyn cynnal darn o ymchwil ar draws y rhanbarth ar y Gymraeg yn y gweithle. Adroddodd EL y bydd cronfa Cynnal y Cardi yn ailagor ar 1 Chwefror 2024, ac mae'r Tîm wedi cael eu boddi gan ymholiadau. Bydd angen gwario'r arian cyn Rhagfyr 2024. Atgoffwyd y grŵp fod y Tîm hefyd yn rheoli prosiect Partneriaeth Bwyd Ceredigion, sydd wedi'i gomisiynu i Menter a Busnes. Gellir dod o hyd i'r holl brosiectau a ariennir gan CFfG y DU ar wefan CCC.
**Gweithred: Gwahodd cynrychiolydd o Gyngor Tref Llanbedr Pont Steffan i fynychu'r cyfarfod nesaf i gyflwyno Cynllun Gwella Llanbedr Pont Steffan.**
**Gweithred: Iwan Davies a Hazel Lloyd-Lubran i gael eu gwahodd i fynychu'r cyfarfod nesaf i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y mentrau cymdeithasol sy'n symud ymlaen yn ardal Llanbedr Pont Steffan.**

DRAFT

Yn ddiweddar, mynychodd David Jones (DJ) ddigwyddiad a gynhaliwyd gan Gronfa Gymunedol y Loteri ar gyllid Gyrfaoedd Gwyrdd a oedd â'r nod o helpu pobl ifanc rhwng 16 a 30 oed yng Nghymru i gael gyrfaoedd gwyrdd. Nododd DJ y bydd y cyfnod ymgeisio am gyllid cam cyntaf yn cau ym mis Ebrill, ac fe bwysleisiodd fod cyfle i greu cais yn sirol neu'n rhanbarthol.
**Gweithred: Tîm Cefnogi BGC i rannu gwybodaeth ychwanegol am Gamau Cynaliadwy Cymru, Cronfa Gymunedol y Loteri Gyrfaoedd Gwyrdd.**

**<u>9.6 Diweddariad: Gweithgaredd y Bartneriaeth Natur Lleol yn Llambed:</u>**
Doedd Rachel Auckland ddim yn gallu bod yn bresennol. Ni ddarparwyd unrhyw ddiweddariad.

**<u>9.7 Prosiect Ymgysylltu â Phobl Ifanc:</u>**
Yn y cyfarfod diwethaf, cytunwyd y byddai grŵp llywio yn cael ei sefydlu i ystyried y camau nesaf ar gyfer prosiect ymgysylltu â phobl ifanc yn Llanbedr Pont Steffan. Cadarnhaodd SD fod ystod eang o bartneriaid wedi cadarnhau eu diddordeb i fod yn rhan o'r grŵp, ac y byddai cyfarfod yn cael ei drefnu maes o law. Mae Laura Cait Driscoll (LCD) yn gwneud mân newidiadau i'r adroddiad terfynol ar hyn o bryd, a bydd yn cael ei rannu gydag aelodau'r grŵp llywio unwaith y bydd wedi'i gwblhau. Nododd SD y bydd angen penodi Cadeirydd ar gyfer y grŵp llywio, a gofynnodd i wirfoddolwyr neu enwebiadau gael eu hanfon at y Tîm Cefnogi BGC cyn gynted â phosibl er mwyn datblygu'r darn hwn o waith. Awgrymodd EL fod SD a LCD yn cysylltu gyda Alaw Rees (Menter a Busnes) sy'n ymweld ag ysgolion lleol i gyflwyno gyrfaoedd fel rhan o brosiect ARFOR 'Llwyddo'n Lleol'.
**Gweithred: Aelodau'r Grŵp Cyflawni sydd â diddordeb mewn bod yn rhan o grŵp llywio'r Prosiect Ymgysylltu â Phobl Ifanc i gysylltu â Sara Dafydd.**
**Gweithred: Aelodau'r Grŵp Cyflawni i ystyried gwirfoddoli neu enwebu cynrychiolydd addas i Gadeirio'r grŵp llywio.**
**Gweithred: Cysylltu gyda Alaw Rees (Menter a Busnes) ynghylch y Prosiect Ymgysylltu â Phobl Ifanc.**

**<u>9.8 Eitem Sefydlog: Model Cymdeithasol ar gyfer Iechyd a Lles – Creu Newid Gyda'n Gilydd yng Ngheredigion:</u>**
Er nad oedd cynrychiolydd o HDdUHB yn bresennol i ddarparu diweddariad, nododd SD fod adroddiad dadansoddiad manwl ar y Model Cymdeithasol ar gyfer Iechyd a Lles (MCIaLl) wedi'i gynhyrchu a'i gyflwyno yng nghyfarfod Pwyllgor Datblygu Strategol a Chyflawni Gweithredol y Bwrdd Iechyd ar ddiwedd 2023. Mae'r adroddiad ar gael yn gyhoeddus ac mae'n cynnwys diweddariad byr ar y gweithgaredd MCIaLl yng Ngheredigion. Gofynnwyd i'r aelodau gysylltu â'r Tîm Cefnogi BGC os oedd ganddynt ddiddordeb i darllen yr adroddiad. Adroddodd Greg Jones (GJ) fod cyfarfod o'r grŵp llywio Creu Newid Gyda'n Gilydd yng Ngheredigion wedi cyfarfod yn gynharach y bore hwnnw ac yn cynnwys cyflwyniad ar Dîm Allgymorth Datblygu Cymunedol

DRAFT

HDdUHB (TADC) a rhoddodd drosolwg o'u gwasanaethau a'u gweithgarwch ymgysylltu â grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y gymuned. Awgrymodd GJ wahodd TADC i gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Cyflawni.
**Gweithred: Gwahodd Tîm Allgymorth Datblygiad Cymunedol HDdUHB i gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Cyflawni.**

**9.9 Unrhyw Fater Arall:**
Rhoddodd SD ddiweddariad cryno ar y prif bwyntiau a godwyd yng nghyfarfod grŵp llywio diweddaraf Partneriaeth Bwyd Ceredigion (PBC). Nodwyd bod 20 cais am gyllid wedi eu cyflwyno - llwyddodd 10 cais i gael eu cyllido'n llawn, a 5 prosiect i dderbyn cyllid rhannol. Nod un o'r prosiectau llwyddiannus yw mapio mannau tyfu cymunedol ar draws y sir er mwyn canfod lle mae bylchau a photensial ar gyfer cyfleoedd. Cynigiodd SD fod cyswllt yn cael ei wneud gyda Hwb Eco Aber sy'n arwain ar y prosiect hwn, i ganfod a all y Grŵp Cyflawni hwyluso'r darn hwn o waith.
**Gweithred: Sara Dafydd i gysylltu a Hwb Eco Aber i ganfod a all y Grŵp Cyflawni gefnogi'r ymarfer mapio mannau tyfu cymunedol.**

• *Syniadau ar gyfer clipiau fideo gweithgaredd hyrwyddo:*
Dywedodd TB fod gan BGC Ceredigion, Sir Benfro a Chaerfyrddin arian i ddatblygu pedwar fideo, 90 eiliad, profiadau byw. Nododd TB bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i greu fideo fyddai'n cefnogi lansio'r Cynllun Llesiant, a gofynnodd i aelodau gyfrannu unrhyw syniadau ychwanegol. Awgrymodd GJ hyrwyddo Canolfan Llesiant Llanbedr Pont Steffan a'r cysyniad o'r Canolfannau Llesiant yn gyffredinol, gan ganolbwyntio ar gynnig y Cynllun Atgyfeirio Ymarfer Corff Cenedlaethol (CAYC).
**Gweithred: Aelodau'r Grŵp Cyflawni i rannu unrhyw syniadau ynghylch y fideos profiad byw gyda Tim Bray.**

Rhannodd SD ddiweddariad ar ran Connor Cook (CC), a oedd wedi anfon ymddiheuriadau ar gyfer y cyfarfod hwn – mae Adran Polisi Cynllunio CCC yn cynnal digwyddiad galw heibio i lywio'r Cynllun Arfarnu a Rheoli Ardaloedd Cadwraeth ar gyfer Llanbedr Pont Steffan. Cynhelir y digwyddiad ddydd Iau 8 Chwefror 2024 am 4-6pm yn y Creuddyn, a'i nod yw casglu gwybodaeth leol a chasglu barn pobl am yr ardal gadwraeth.
**Gweithred: Sara Dafydd i rannu'r ddolen ar gyfer y datganiad i'r wasg ynghylch digwyddiad galw heibio y Cynllun Gwerthuso Ardal Gadwraeth a'r Cynllun Rheoli yn Creuddyn.**

Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu hamser a daeth â'r cyfarfod i ben.

**9.10 Cyfarfod nesaf:** 18 Ebrill 2024 am 14:00-16:00

DRAFT

| **Crynodeb o'r gweithredoedd:** | | |
|---|---|---|
| **a)** | Tîm Cefnogi BGC i ddosbarthu’r cynllun Cyflawni'r Cynllun Llesiant i aelodau yn dilyn cyfarfod y BGC ym mis Mawrth. | Tîm Cefnogi BGC |
| **b)** | Eirlys Lloyd a Tim Bray i gwrdd i sicrhau bod y Bartneriaeth Economaidd Leol yn cael ei chynrychioli yn y siart llif strwythur cyflawni. | Eirlys Lloyd, Tim Bray |
| **c)** | Eirlys Lloyd a Mike Hotson i gael eu gwahodd i fynychu'r grŵp Gorchwyl a Gorffen ar gyfer y lansiad. Holl aelodau'r Grŵp Cyflawni i ystyried cynrychiolwyr addas eraill, a rhannu awgrymiadau gyda Sara Dafydd. | Tîm Cefnogi BGC, Pob Aelod Grŵp Cyflawni |
| **ch)** | Tîm Cefnogi BGC i ddrafftio a chylchredeg y Cylch Gorchwyl ar gyfer sylwadau. | Sara Dafydd |
| **d)** | Holl aelodau'r Grŵp Cyflawni i ystyried y CG ddrafft, ac ymateb gydag unrhyw adborth. | Holl Aelodau Grŵp Cyflawni |
| **dd)** | Holl aelodau'r Grŵp Cyflawni i gadarnhau a ydynt am aros ar restr ddosbarthu, ac i awgrymu syniadau ar gyfer cynrychiolwyr ychwanegol a allai ychwanegu gwerth i’r grŵp. | Holl Aelodau Grŵp Cyflawni |
| **e)** | Gwahoddwch gynrychiolydd o Gyngor Tref Llanbedr Pont Steffan i fynychu'r cyfarfod nesaf i gyflwyno Cynllun Gwella Llanbedr Pont Steffan. | Sara Dafydd |
| **f)** | Iwan Davies a Hazel Lloyd-Lubran i gael eu gwahodd i fynychu'r cyfarfod nesaf i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y mentrau cymdeithasol sy'n symud ymlaen yn ardal Llanbedr Pont Steffan. | Sara Dafydd |
| **ff)** | Tîm Cefnogi BGC i rannu gwybodaeth ychwanegol am Gamau Cynaliadwy Cymru, Cronfa Gymunedol y Loteri Gyrfaoedd Gwyrdd. | Tîm Cefnogi BGC |
| **g)** | Aelodau'r Grŵp Cyflawni sydd â diddordeb mewn bod yn rhan o grŵp llywio'r Prosiect Ymgysylltu â Phobl Ifanc i gysylltu â Sara Dafydd. | Holl Aelodau Grŵp Cyflawni |
| **ng)** | Aelodau'r Grŵp Cyflawni i ystyried gwirfoddoli neu enwebu cynrychiolydd addas i Gadeirio’r grŵp llywio. | Holl Aelodau Grŵp Cyflawni |
| **h)** | Cysylltu gyda Alaw Rees (Menter a Busnes) ynghylch y Prosiect Ymgysylltu â Phobl Ifanc. | Sara Dafydd, Laura Cait Driscoll |
| **i)** | Gwahodd Tîm Allgymorth Datblygiad Cymunedol HDdUHB i gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Cyflawni. | Sara Dafydd |
| **l)** | Sara Dafydd i gysylltu a Hwb Eco Aber i ganfod a all y Grŵp Cyflawni gefnogi'r ymarfer mapio mannau tyfu cymunedol. | Sara Dafydd |
| **ll)** | Aelodau Grŵp Cyflawni i rannu unrhyw syniadau ynghylch y fideos profiad byw gyda Tim Bray. | Holl Aelodau Grŵp Cyflawni |
| **m)** | Sara Dafydd i rannu’r ddolen ar gyfer y datganiad i'r wasg ynghylch digwyddiad galw heibio y Cynllun Gwerthuso Ardal Gadwraeth a'r Cynllun Rheoli yn Creuddyn. | Sara Dafydd |

DRAFT